

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

**Cynllun Iaith Gymraeg
Mai 2009**

Paratowyd o dan

Ddeddf Iaith Gymraeg 1993

DATGANIAD O GYMERADWYAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf ar xxxxxxxx.

DATGANIAD YN CYDNABOD YR EGWYDDOR O GYDRADDOLDEB YN NEDDF IAITH GYMRAEG 1993

“Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ymgymryd â'i waith cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sydd y bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.”

CYFLWYNIAD

- 1.1. Sefydlwyd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG fel Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn y GIG ar 1 Hydref 2005. Yr oedd yn cyfuno ac yn disodli rolau'r Awdurdod Gwaed Cenedlaethol (a oedd yn rheoli'r Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol a'r Labordy Bio Gynhyrchion) a Thrawsblaniadau'r DU. Ei gylch gwaith yw gwella ansawdd, diogelwch a chynyddu'r cyflenwad gwaed, organau a meinweoedd a roddir, ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau gwaed a thrawsblannu.
- 1.2. Mae prif swyddogaethau tri maes gwaith Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG – y Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol (NBS), Rhoddwyr Organau a Thrawsblaniadau (ODT) a'r Labordy Bio Gynhyrchion (BPL) - fel a ganlyn:
 - 1.2.1. NBS - arbed a gwella bywydau cleifion trwy ddarparu gwasanaethau gwaed a meinwe sydd ymhlith y gorau yn y byd. Mae'r gwasanaeth yn gwbl ddibynnol ar roddion gwirfoddol, ac mae'n casglu 1.6% o gyfanswm ei stoc gwaed yng Ngogledd Cymru, gydag 1.8% o'u hadnoddau casglu wedi'u lleoli yno.
 - 1.2.2. ODT - arwain a darparu'r fframwaith angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau trawsblannu cornbilennau ac organau caled llwyddiannus yn y DU.
 - 1.2.3. BPL – datblygu a gweithgynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion therapiwtig o blasma, wedi'u mewnforio gan gyflenwr o'r UDA sy'n eiddo cyfan gwbl i'r Adran Iechyd.
- 1.3. Y gwasanaethau sylfaenol a darperir gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yw:
 - 1.3.1. Dau dîm yn casglu gwaed gan roddwyr gwirfoddol, un wedi'i leoli yng Nghaernarfon, a'r llall yn Wrecsam;
 - 1.3.2. Cyflenwi gwaed, cynhyrchion gwaed, meinweoedd a gwasanaethau cysylltiedig i ysbytai yng Nghymru o ganolfannau'r NBS yn Lerpwl a Manceinion;
 - 1.3.3. Annog rhoddwyr i roi organau, gwaed (yng Ngogledd Cymru yn unig) a meinweoedd;
 - 1.3.4. Darparu cefnogaeth i ganolfannau trawsblannu i sicrhau bod organau a roddir yn addas ar gyfer y derbynnydd a'u bod yn cael eu dyrannu ar sail deg.
- 1.4. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yng Nghaerdydd yn casglu gwaed ac yn cyflenwi gwaed, cynhyrchion gwaed a gwasanaethau cysylltiedig i weddill Cymru.

- 1.5. Mae prif gysylltiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru gyda rhoddwyr gwaed, y cyhoedd, Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol, mudiadau gwirfoddol, Llywodraeth y Cynulliad a'r cyfryngau.
- 1.6. Paratowyd y Cynllun hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a derbyniodd gymeradwyaeth ffurfiol Bwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar 28ain Mai 2009 cyn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gael ei gymeradwyo. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi ymrwmo i barhau â'i berthynas gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran y cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun ac ni fydd yn newid y Cynllun heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 1.7. Penny Richardson sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Gynllun Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

- 2.1. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cydnabod ei rôl i gefnogi defnydd o'r Gymraeg ymhlith rhoddwyr a defnyddwyr ei wasanaethau yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar fewnwyd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG er gwybodaeth i staff. Bydd y Rheolwr Iaith Gymraeg yn rhoi arweiniad a chynghor i staff ar bob lefel o'r sefydliad ynghylch gweithredu'r Cynllun yn ôl yr angen neu os bydd galw.

3. POLISIÂU A CHYNLLUNIAU NEWYDD

- 3.1. Pan fydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn llunio polisiâu a chynlluniau newydd sy'n ymwneud â rhoddion ac ysbytai yng Nghymru, bydd mater yr iaith yn cael ei asesu. Bydd staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n gyfrifol am lunio polisiâu sy'n effeithio ar Gymru yn derbyn canllawiau sy'n egluro eu cyfrifoldebau o dan Gynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Bydd polisiâu a chynlluniau newydd o'r fath sy'n effeithio ar Gymru yn gyson â Chynllun Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- 3.2. Bydd mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn cael eu gweithredu mewn polisiâu a chynlluniau newydd perthnasol yng Nghymru pan gânt eu gweithredu, gyda mater yr iaith wedi ei asesu pan oeddent yn cael eu llunio.

Wrth lunio polisiâu a chynlluniau newydd, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn:

- asesu mater yr iaith yn achos unrhyw bolisiâu neu gynlluniau newydd yn ystod y broses o'u llunio;
- sicrhau bod polisiâu a chynlluniau newydd yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg;
- sicrhau bod polisiâu newydd yn gyson â'r Cynllun ac nad ydynt yn ei danseilio;
- sicrhau bod staff sy'n llunio polisiâu yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r sefydliad o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg;
- ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun;

- sicrhau bod mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn cael eu gweithredu o fewn polisiau a chynlluniau newydd pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.

4. SAFON GWASANAETH YN GYMRAEG

4.1. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon briodol a chyson yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru. Bydd yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n ddwyieithog â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau cysondeb o'r fath yn safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir i'r cyhoedd ym mhob agwedd o'i waith yng Nghymru.

5. DARPARIAETH Y GWASANAETH

5.1. Bydd y Rheolwr Iaith Gymraeg yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu a monitro'r Cynllun yng Nghymru.

5.2. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth gynllunio a threfnu ei wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru'n gallu derbyn y gwasanaethau hyn yn eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg). Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod nifer digonol o staff sy'n siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

5.3. Bydd cyfeiriadur o siaradwyr Cymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu. Bydd yn cynnwys gallu ieithyddol staff a'u parodrwydd i ddelio gyda galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

5.4. Bydd bathodynau sy'n dangos pwy sy'n siarad Cymraeg yn cael eu dosbarthu i staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n delio'n bersonol â'r cyhoedd yng Nghymru (sef rhoddwyr a marchnata). Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo'r bathodynau "Iaith Gwaith" sy'n cael eu darparu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

6.1. Gohebiaeth Ysgrifenedig

6.1.1. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn rhoi'r un croeso i ohebiaeth Gymraeg a Saesneg ar faterion sy'n effeithio ar Gymru.

6.1.2. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg sydd angen ateb yn cael ei ateb yn Gymraeg. Bydd yr amser a gymer i ateb gohebiaeth o'r fath yr un faint ag ar gyfer gohebiaeth yn Saesneg.

6.1.3. Bydd gohebiaeth gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG sydd â goblygiadau i'r cyhoedd yng Nghymru'n cael ei chynhyrchu'n Gymraeg a Saesneg. Os na fydd amser neu amgylchiadau'n caniatáu i'r

wybodaeth gael ei chyfieithu cyn ei chyhoeddi (h.y. gweithredu mesur diogelwch heb ei gynllunio neu frys), bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

- 6.1.4. Bydd cyfieithydd allanol yn cael ei gyflogi i gyfieithu llythyrau, yn ôl yr angen. Bydd cyfyngiadau'r Ddeddf Diogelu Data a chyfrinachedd rhoddwyr / cleifion / cynrychiolwyr teulu rhoddwr marw, fel yr amlinellir yn 6.2.1, yn weithredol.
- 6.1.5. Bydd y staff perthnasol sy'n delio â'r cyhoedd yng Nghymru'n cael arweiniad ar sut i ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

6.2. Cyfathrebu ar lafar

- 6.2.1. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn rhoi'r un croeso i alwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Bydd staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru sy'n ateb y ffôn yn cyfarch galwyr yn ddwyieithog a bydd y galwr yn cael dewis o siarad gydag aelod o staff yn Gymraeg neu Saesneg. Os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y pryd, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ffonio'r galwr yn ôl o fewn 24 awr, i'r galwr yrru'r ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg neu i barhau â'r alwad yn Saesneg. Rhoddir arweiniad i staff sy'n delio â siaradwyr Cymraeg, a bydd cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- 6.2.2. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd modd cyfathrebu yn Gymraeg. Gall hyn gynnwys amgylchiadau pan fydd angen i feddyg drafod mater iechyd cyfrinachol penodol, a lle byddai cynnwys cyfieithydd yn torri cyfrinachedd y claf / rhoddwr / cynrychiolydd rhoddwr marw o dan y Ddeddf Diogelu Data. Yr eithriad fyddai pan na fyddai cyfathrebu'n Gymraeg yn niweidiol i iechyd y person.
- 6.2.3. Yn dilyn unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol yn newis iaith yr aelod o'r cyhoedd.
- 6.2.4. Mae'r NBS yn gweithredu llinell gymorth i roddwyr ar gyfer galwadau sy'n dod i mewn, ac sydd hefyd yn cynnwys marchnata dros y ffôn ar gyfer rhoddwyr gwaed. Mae ODT yn rhedeg canolfan alwadau ar gyfer galwadau sy'n dod i mewn. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl ar gael ac mae cyfarwyddiadau clir ar gael ar gyfer staff di-Gymraeg ar sut i ymdrin â siaradwyr Cymraeg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, bydd neges yn cael ei gymryd a ffonir y galwr yn ôl o fewn 24 awr.
- 6.2.5. Bydd staff Cymraeg eu hiaith yn ffonio rhoddwyr / rhoddwyr posibl ar ran adrannau eraill Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o fewn Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, os bydd angen, yn amodol ar gyfyngiadau cyfrinachedd cleifion / rhoddwyr a'r Ddeddf Diogelu Data.

- 6.2.6. Bydd neges peiriant ateb ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio yn swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghaernarfon a Wrecsam.

6.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 6.3.1. Gall cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru gynnwys cyfarfodydd o Fwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, seremonïau i wobrwyo rhoddwyr a chyfarfodydd gwybodaeth i'r cyhoedd.
- 6.3.2. Bydd unrhyw gyfarfodydd o'r fath a drefnir yng Nghymru yn caniatáu i'r cyhoedd gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd pob hysbysiad / datganiad i'r wasg i hysbysu'r cyhoedd o gyfarfodydd o'r fath yn ddwyieithog. Pan fydd cyfarfodydd o'r fath yn caniatáu cyfraniadau gan y cyhoedd, gwahoddir y sawl sy'n bwriadu bod yn bresennol i hysbysu Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ymlaen llaw a ydynt yn dymuno cyfrannu'n Gymraeg neu Saesneg. Gwneir trefniadau wedyn i aelod o staff Cymraeg ei iaith neu gyfieithydd proffesiynol fod yn bresennol, os bydd angen.
- 6.3.3. Bydd aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n dymuno cael cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gallu cynnal y rhain yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y sawl sy'n byw yng Nghymru'n cael eu hysbysu o'r dewis hwn. Gwneir trefniadau wedyn i aelod o staff Cymraeg ei iaith neu gyfieithydd proffesiynol fod yn bresennol, os bydd angen.

6.4. Y Cyfryngau Newydd

- 6.4.1. Mae gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG, NBS ac ODT eu gwefannau eu hunain. Mae dolen ar wefan y NBS at safle Gwasanaeth Gwaed Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth yn y Gymraeg. Mae dolen ar wefan ODT at safle'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth am rhoi organau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 6.4.2. Os oes deunydd Cymraeg ar gael a bod y fersiwn Saesneg gyfatebol yn cael ei chyhoeddi ar wefannau NBS ac ODT, bydd y fersiwn Gymraeg hefyd yn cael ei chyhoeddi ar y safleoedd hyn. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r categorïau gwybodaeth y bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn eu cyfieithu ac yn eu rhoi ar y wefan:
- Datganiadau Cymreig i'r wasg
 - Cyngor cyhoeddus i Gymru
 - Gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru
 - Cofnodion unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

- 6.4.3. Bydd pob e-bost a dderbynnir yn Gymraeg, lle bydd angen ateb, yn cael eu hateb yn Gymraeg.
- 6.4.4. Wrth i dechnoleg gyfathrebu ddatblygu, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog, os bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o'r farn fod hyn yn briodol ac ymarferol.

7. HUNANIAETH GORFFORAETHOL

7.1. Canllawiau Hunaniaeth Gorfforaethol

- 7.1.1. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn defnyddio logo dwyieithog ar ddogfennau corfforaethol yng Nghymru.
- 7.1.2. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cynnwys adran am y Gymraeg a Hunaniaeth Gorfforaethol yng nghanllawiau perthnasol Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- 7.1.3. Bydd deunydd ysgrifennu swyddfa leol Cymru yn ddwyieithog

7.2. Arwyddion

- 7.2.1. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gosod arwyddion dwyieithog o fewn terfynau eiddo'r sefydliad yng Ngogledd Cymru lle caniateir mynediad i'r cyhoedd.
- 7.2.2. Bydd arwyddion hysbysebu sesiynau rhoi gwaed yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 7.2.3. Bydd yr arwyddion ar gerbydau NBS sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n barhaol yn ddwyieithog.
- 7.2.4. Bydd maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd y testun ar arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb. Os ceir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd.

7.3 Cyhoeddusrwydd a deunydd printiedig wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru

- 7.3.1. Bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd priodol a ddisberthir i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Pan yn ymarferol a pherthnasol, bydd deunydd printiedig priodol yn cael ei gynhyrchu mewn un ddogfen ddwyieithog.
- 7.3.2. Bydd maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd y testun ar ddeunydd cyhoeddusrwydd yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb. Os ceir rhai Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd.

- 7.3.3 Bydd pob poster sy'n hysbysebu sesiynau rhoi gwaed yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 7.3.4 Bydd cardiau rhoddwyr gwaed yn rhai dwyieithog i bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd cardiau rhoddwyr organau'n rhai dwyieithog i bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n cofrestru trwy'r rhynggrwyd neu'r Llinell Rhoi Organau.
- 7.3.5 Bydd tystysgrifau i roddwyr gwaed yn rhai dwyieithog i roddwyr sy'n byw yng Nghymru.
- 7.3.6 Pe bai'n ofynnol i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG godi tâl am unrhyw un o'i ddogfennau a fydd ar gael i'r cyhoedd, bydd cost y rhain – boed hwy'n ddwyieithog neu'n Gymraeg neu Saesneg – yr un faint.

7.4 Ffurflenni a deunydd eglurhaol at ddefnydd y cyhoedd

- 7.4.2 Bydd ffurflenni at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 7.4.3 Bydd taflenni gwybodaeth at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

8. HYSBYSEBU A GWEITHGAREDDAU AR Y CYFRYNGAU

8.1. Ymgyrchoedd

- 8.1.1. Bydd datganiadau i'r wasg a gyhoeddir i'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu rhyddhau yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl dewis iaith y cyfrwng neu'r cyhoeddiad a fydd yn derbyn y wybodaeth.
- 8.1.2. Pan fydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau yng Nghymru trwy gyfrwng arddangosfeydd, arddangosiadau neu gyflwyniadau parhaol neu dros dro, bydd yn gwneud hynny yn y ddwy iaith.
- 8.1.3. Bydd llfarydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n medru'r Gymraeg neu gyfieithydd ar gael i ddelio gyda'r cyfryngau Cymraeg, pan fydd angen ac os bydd hynny'n ymarferol.
- 8.1.4. Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cynhyrchu deunydd hysbysebu ysgrifenedig, posteri a deunydd cyhoeddusrwydd – pan fyddant wedi'u targedu'n benodol at y cyhoedd yng Nghymru – yn ddwyieithog ac mewn ffordd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 8.1.5. Bydd ymgyrchoedd teledu, radio a sinema Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sydd wedi'u hanelu'n benodol at y cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Bydd unrhyw ymgyrchoedd yn y cyfryngau a fydd

yn cael eu dangos ar deledu a radio Cymraeg yn unig yn cael eu cynhyrchu'n Gymraeg.

- 8.1.6 Bydd unrhyw arolygon o farn rhoddwyr a gynhelir yng Nghymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

8.2 Hysbysebion recriwtio staff a hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

- 8.2.1 Bydd hysbysiad am bob un o gyfarfodydd cyhoeddus Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hysbysiadau o'r fath yn ei gwneud yn amlwg y bydd croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg. I hwyluso hyn, bydd yr hysbysiadau yn gofyn i'r cyhoedd sy'n bwriadu bod yn bresennol hysbysu Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o'u dewis.
- 8.2.2 Wrth recriwtio staff lle mae Cymraeg rhugl yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd, bydd hysbysebion recriwtio a fydd yn ymddangos yn y wasg genedlaethol a'r wasg Gymreig yn ddwyieithog, ond byddant yn ymddangos yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith. Bydd maint, diwyg, darllenadwyaeth a'r amlygrwydd a roddir i'r ddwy iaith yn gyfartal mewn hysbysebion o'r fath.

9. TREFNIADAU GWEINYDDOL

9.1 Gweithredu a Monitro'r Cynllun

- 9.1.1 Mae Bwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cefnogi, awdurdodi ac yn cymeradwyo'r Cynllun hwn.
- 9.1.2 Bydd y Rheolwr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am integreiddio'r Cynllun i brosesau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- 9.1.3 Bydd staff yng Nghymru yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Cynllun.
- 9.1.4 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod unrhyw gyfieithwyr a ddefnyddir yn meddu ar gymwysterau addas ac yn gallu darparu gwasanaeth o safon briodol, fel a gymeradwywyd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

10. STAFFIO A RECRIWTIO

Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn datblygu strategaeth sgiliau ieithyddol er mwyn cadw gorolwg o'i anghenion sgiliau ieithyddol ac adnoddau ac i gydlynu hyfforddiant a gweithgareddau recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun.

- 10.1 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ymdrechu i sicrhau bod swyddfeydd a thimau casglu symudol sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru yn meddu ar ddigon o siaradwyr Cymraeg gyda sgiliau priodol i alluogi'r

swyddfeydd a'r timau symudol hynny i ddarparu gwasanaeth priodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 10.2 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn llunio rhestr o staff yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg.
- 10.3 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ymdrechu i wella sgiliau iaith Gymraeg ei staff yng Nghymru, pan gyfyd y cyfle, er enghraifft, trwy recriwtio neu ddarparu hyfforddiant yn yr iaith.
- 10.4 Cyhoeddir canllawiau i sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac adolygu staff yng Nghymru yn gyfarwydd â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 10.5 Pan yn briodol, bydd staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn trafod yr angen am hyfforddiant penodol yn y Gymraeg gyda'u rheolwr fel rhan o'u cynlluniau datblygiad personol.
- 10.6 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried gallu ieithyddol fel un o nifer o sgiliau a gaiff eu hystyried ar gyfer swyddi perthnasol yng Nghymru.

10.7 Dysgu Cymraeg

- 10.7.1 Pan yn briodol, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn annog ac yn cefnogi staff yng Nghymru i ddysgu Cymraeg neu wella eu gallu i siarad Cymraeg. Bydd pob aelod perthnasol o'r staff yn cytuno ar eu hanghenion hyfforddi a datblygiad gyda'u rheolwyr llinell a bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd, trwy broses y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau.
- 10.7.2 Os bydd person di-Gymraeg yn cael ei benodi i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod y person hwnnw'n dysgu'r iaith fel amod gwasanaeth i lefel o hyfedredd boddhaol o fewn 3 blynedd. Bydd yr amod hwn yn cael ei gynnwys yn yr hysbyseb am swyddi o'r fath a bydd y swydd yn cael ei chynnig ar yr amod hwnnw. Gwneir trefniadau gyda darparwyr lleol a bydd adnoddau ariannol yn cael eu neilltuo i dalu ffioedd cyrsiau priodol.

11. CYTUNDEBAU A THREFNIADAU A WNEIR GYDA THRYDYDD PARTI

- 11.1 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod unrhyw gytundebau a threfniadau a wneir gyda thrydydd parti, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gydnaws â thelerau'r Cynllun hwn. Gofynnir am ymrwymiad gan yr asiant neu'r contractwr y gall ac y bydd yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r Cynllun pan fydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd Cymraeg ei iaith ar ran Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

11.2 Bydd y gofyniad i gydymffurfio â'r Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ddogfennau tendro perthnasol am contractau.

11.3 Bydd canllaw yn cael ei gyhoeddi i staff sy'n delio ag asiantau a chontractwyr yn nodi'r gofynion o ran y defnydd o'r Gymraeg wrth dendro, pan fydd hynny'n briodol. Bydd cydymffurfriad yn cael ei fonitro, unwaith eto pan fydd hynny'n briodol.

12. MONITRO

12.1 Bydd y Rheolwr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun.

12.2 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei fonitro a'i weithredu'n effeithiol

12.3 Bydd Bwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol i fesur:

- cydymffurfriad â'r Cynllun
- a yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n briodol
- unrhyw wendidau sylfaenol.

Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn y nhrydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn paratoi adroddiad gwerthuso a fydd yn asesu ac yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- Rhoi trosolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfriad a pherfformiad yn ystod tair blynedd gyntaf y Cynllun, o ddau safbwynt - darparu gwasanaeth a rheoli'r cynllun.
- Amlinellu blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau sydd yn y Cynllun.
- Asesu'r cynnydd yng Ngwaed a Thrawsblaniadau'r GIG o ran darparu gwasanaeth dwyieithog.

Ar yr adeg hon, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

13. CWYNIION

Bydd unrhyw gwynion sy'n ymwneud â gweithrediad y cynllun neu y gwasanaeth a ddarperir yn y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn nhrefn gwynion Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

14. TARGEDAU

14.1 Gall y targedau canlynol, a ddefnyddir i fesur y modd y gweithredir y Cynllun, gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg; rhoddir yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn Atodiad 1.

14.2 Cwynion

Cydnabyddir cwynion a dderbynnir o fewn 2 ddiwrnod a rhoddir ateb llawn o fewn 20 niwrnod gwaith.

14.3 Ffôn

Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y pryd, cynigir ffonio'r galwr yn ôl o fewn 24 awr.

14.4 Wyneb yn wyneb

Bydd pob aelod o staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn gwisgo bathodynnew enw dwyieithog ac anogir staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynnew "laith Gwaith" a ddarperir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

14.5 Cyhoeddiadau

Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ymdrechu i gyhoeddi fersiynau dwyieithog a Saesneg o daflenni a ffurflenni newydd perthnasol mewn modd amserol. Os na fydd hyn yn bosibl o ganlyniad i newidiadau brys, bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael cyn gynted â phosibl a bydd fersiwn ddwyieithog yn cael ei chyhoeddi o fewn 6 wythnos i'r fersiwn Saesneg.

15. PERFFORMIAD

15.1 Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cadw cofrestr o'r holl sylwadau ysgrifenedig a dderbynnir am Gynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

16. RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

16.1 Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i Gynllun Iaith Gymraeg Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ynghyd â'r gwasanaethau y mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn bwriadu eu darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg, cymerir y camau canlynol :

15.1.1 Ar gyfer staff:

- Bydd canllawiau ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i staff perthnasol yng Nghymru
- Erthyglau yng nghyhoeddiadau staff, pan yn briodol;
- Manylion perthnasol i'w cyhoeddi ar y fewnwyd;

Ar gyfer rhanddeiliaid allanol ac aelodau o'r cyhoedd:

- Bydd posteri / taflenni perthnasol yn cael eu harddangos gan dimau casglu gwaed yng Nghymru am gyfnod penodedig
- Bydd datganiad perthnasol i'r wasg yn cael ei gyhoeddi ar wefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

17. MANYLION CYSWLLT CYNLLUN GWAED A THRAWSBLANIADAU'R GIG

Gellir cysylltu â'r Rheolwr Iaith Gymraeg, Penny Richardson, ynghylch y Cynllun hwn ar 0151 552 7033 Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, 14 Estuary Banks, Speke Lerpwl, L24 8RB.

17. AMSERLEN GWEITHREDU

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
3.1 Canllaw i staff ar lunio polisiau newydd	Mae ystyriaeth o effaith y Gymraeg ar bolisiau newydd yn cael ei hystyried ar hyn o bryd. Bydd canllaw yn cael ei datblygu a'i chyhoeddi	6 mis
5.2 Nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg	Mae staff Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyflogi eisoes, ond bydd angen adolygu hyn yn barhaus.	Adolygu parhaus
5.3 Cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg	Cyfeiriadur ar gael	Gweithredwyd
5.4 Darparu bathodynnau 'laith Gwaith' i staff Cymraeg eu hiaith sy'n gweithio gyda rhoddwyr	Mae'r bathodynnau ar gael i staff	Gweithredwyd
6.1.2 Bydd gohebiaeth Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg	Mae gweithdrefnau ar gyfer hyn ar waith ac maent yn gweithio	Gweithredwyd
6.1.3 Gohebiaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gyda goblygiadau i'r cyhoedd yng Nghymru i gael ei chynhyrchu'n Gymraeg a Saesneg	Mae llythyrau gwahoddiad NBS yng Nghymru yn ddwyieithog.	Gweithredwyd
6.1.4 Darparu cyfieithydd	Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn defnyddio cyfieithydd allanol ar hyn o bryd	Gweithredwyd
6.1.5 Canllaw i staff ar ddelio â gohebiaeth a ysgrifennwyd yn Gymraeg	Nodiadau canllaw i gael eu cyhoeddi	6 mis

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
6.2.3 Cyfarch ar y ffôn	Yn briodol i swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn unig	Gweithredwyd
6.2.3 Cynnig dewis o iaith i alwyr	Yn briodol i swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn unig	6 mis
6.2.3 Ffonio'n ôl o fewn 24 awr os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael	Bydd hyn yn bosibl ar ôl datblygu'r nodiadau canllaw	6 mis
6.2.4 Gallu i siarad Cymraeg ar y llinell gymorth i roddwyr	Mae siaradwyr Cymraeg ar gael ar y llinell gymorth i roddwyr	Gweithredwyd
6.2.6 Neges ar y peiriant ateb	Yn briodol i swyddfeydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yng Nghymru yn unig	Gweithredwyd
6.3.2/3 Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru lle croesewir cyfraniadau gan y cyhoedd	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod cyfieithydd cymwysedig neu staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol pan fydd angen.	Gweithredwyd
6.4.1 Gwefannau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG /NBS/ODT	Mae dolen at Wasanaeth Gwaed Cymru ar wefan NBS. Mae dolen at wefan y Cynulliad Cenedlaethol ar wefan ODT.	Gweithredwyd
6.4.2 Deunydd cyfatebol yn Gymraeg ar y wefan	Pan fydd taflenni neu gyhoeddiadau arall e.e. datganiad i'r wasg, yn cael eu cyhoeddi ar wefannau NBS ac ODT a bod fersiwn Gymraeg ar gael, bydd hwnnw'n	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
	cael ei gyhoeddi hefyd.	
6.4.3 Ymateb i negeseuon e-bost Cymraeg	Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hateb yn newis iaith y sawl sydd wedi'i hysgrifennu.	Mae atebion ysgrifenedig yn Gymraeg ar gael eisoes. Bydd e-bost Cymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg
6.4.4 Technoleg newydd a'r goblygiadau i wybodaeth yn y Gymraeg	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried goblygiadau'r dechnoleg newydd	Fel bydd yn briodol
7.1.1 Canllawiau corfforaethol ar y defnydd o'r Gymraeg	Bydd adran ar sut y dylid defnyddio'r Gymraeg yn y brand Corfforaethol yn cael ei chynnwys yng Nghanllawiau Hunaniaeth Gorfforaethol Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.	12 mis
7.1.2 Deunydd ysgrifenedig lleol yng Nghymru	Bydd deunydd ysgrifenedig swyddfeydd lleol yng Nghymru yn ddwyieithog	Gweithredwyd
7.2.1 Arwyddion allanol ar eiddo Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	Dim ond yn Wrecsam a Chaernarfon y mae gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG swyddfeydd, gyda dim ond ychydig o arwyddion. Nid yw'r swyddfeydd hyn yn agored i'r cyhoedd.	Gweithredwyd
7.2.2 Arwyddion i hysbysebu sesiynau rhoi gwaed	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn sicrhau bod unrhyw arwyddion i hysbysebu sesiynau rhoi gwaed yn	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
	ddwyieithog.	
7.3.1 Deunydd cyhoeddusrwydd printiedig	Bydd deunydd cyhoeddusrwydd yn cael eu hargraffu'n Gymraeg a Saesneg, a hynny mewn un ddogfen ddwyieithog pan fydd hynny'n ymarferol	Gweithredwyd
7.3.3 Posterï	Bydd posterï hysbysebu'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog	Gweithredwyd
7.3.4 Erthyglau yn The Donor	Bydd erthyglau am Gymru sy'n ymddangos yn The Donor, yn ddwyieithog	Gweithredwyd
7.3.4 Cardiau rhoddwyr	Bydd rhoddwyr gwaed sy'n byw yng Nghymru yn derbyn cardiau rhoi gwaed dwyieithog. Bydd rhoddwyr organau sy'n byw yng Nghymru sy'n cofrestru ar y we neu'r Llinell Rhoddwyr Organau'n derbyn cerdyn dwyieithog.	Gweithredwyd
7.4.1 Ffurflenni gwybodaeth	Bydd Holiaduron Iechyd Rhoddwyr, taflenni diogelwch gwaed a gwybodaeth arall i roddwyr yng Nghymru yn ddwyieithog. Mae ffurflen Caniatâd – Rhodd Organau Caled a Meinwe yn cael ei gwblhau gan y Cydlynwyr Rhoddwyr Organau drwy drafodaeth gyda theulu'r rhoddwr. Mae fersiwn dwyieithog o'r ffurflen ar gael i deulu'r rhoddwr,	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
	ond dim ond yr un Saesneg fydd yn cael ei gwblhau a'i ddefnyddio ar gyfer dibenion gweithredol.	
8.1.1 Datganiadau i'r wasg	Cyhoeddir datganiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i'r wasg yn unol â dewis iaith y cyfrwng sy'n eu derbyn	Gweithredwyd
8.1.2 Arddangosfeydd, arddangosiadau, cyflwyniadau	Bydd arddangosfeydd, arddangosiadau, cyflwyniadau parhaol / dros dro yn ddwyieithog	Gweithredwyd
8.1.3 Argaeledd cyfieithydd Cymraeg gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn darparu llefarydd Cymraeg ei iaith neu gyfieithydd; darperir hyfforddiant lle bydd angen.	12 mis
8.1.4/5 Ymgyrchoedd a deunydd cyhoedduswydd wedi'u hanelu at Gymru yn unig	Bydd ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at Gymru'n unig yn ddwyieithog	Gweithredwyd
8.1.6 Arolygon a gynhelir yng Nghymru yn unig	Bydd arolygon a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog	Gweithredwyd
8.2.1 Hysbysiadau a hysbysebion recriwtio	Bydd hysbysebion a hysbysiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog fel yr amlinellwyd	12 mis
9.1.2 Darparu uwch reolwr i redeg y Cynllun	Bydd Penny Richardson, Rheolwr Iaith Gymraeg, yn rhedeg y Cynllun	Gweithredwyd

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
9.1.3 Gwybodaeth i staff yng Nghymru sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi	6 mis
10 Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Strategaeth i'w datblygu	12 mis
10.3 Cywiro diffygion Ieithyddol	Ar ôl canfod diffygion o'r fath, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ymdrechu i'w cywiro trwy recriwtio neu hyfforddi, gan sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion o'r fath ac anghenion gweithrediadau sylfaenol.	Arolwg parhaus
10.4 Canllawiau ar y Cynllun i reolwyr	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi	6 mis
10.6 Gallu Ieithyddol	Bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn ystyried hyn, pan yn briodol, ac yn ei gydbwyso yn erbyn niferoedd digonol o staff.	6 mis
10.7.1 Cefnogi staff i ddysgu Cymraeg	Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn annog pob math o ddatblygiad personol. Mae Cyfrifon Dysgu Annibynnol ar gael i bob aelod o staff y GIG sy'n dymuno dilyn cyrsiau pellach.	Gweithredwyd
10.7.2 Sicrhau bod siaradwyr yn rhugl	Os yw swydd wedi'i nodi fel un lle mae angen siaradwr Cymraeg, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gweithredu ar hyn	12 mis

Eitem	Manylion	Dyddiad targed (ar ôl cymeradwyaeth)
	trwy reolwyr llinell	
10.7.3 Ariannu ffioedd cyrsiau	Os yw swydd ddisgrifiad wedi nodi bod yr angen i siarad Cymraeg yn ofynnol mewn swydd ac fel rhan o'r fanyleb bersonol, sicrhair bod arian yn cael ei darparu.	Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun
11.1 Contractwyr	Bydd contractwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn cael eu hysbysu o Gynllun Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG	6 mis
11.2 Dogfennau tendro	Bydd y tendrau hynny sy'n effeithio ar Gymru yn cynnwys adran ar y Cynllun ble'n briodol.	6 mis
11.3 Canllawiau i gontractwyr	Bydd canllawiau'n cael eu paratoi a'u cyhoeddi	6 mis